OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3014 (Cy.286) (C.97)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002

*Wedi'i wneud - - 4 Rhagfyr 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(1)([1]) o Ddeddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002([2]) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002.

### Darpariaethau s'yn dod i rym mewn perthynas â Chymru

**2.** Y dyddiad a benwyd i adran 1 o Ddeddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 ddod i rym mewn perthynas â Chymru yw 1 Ebrill 2003.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998([3])

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

4 Rhagfyr 2002

([1]) *Gweler* adran 3(2) i weld ystyr "the appropriate Minister".
([2]) 2002 p.4.
([3]) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â holl ddarpariaethau creiddiol Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 ("Deddf 2002") i rym ar 1 Ebrill 2003 mewn perthynas â Chymru.

Mae adran 1(1) ac 1(3) o Ddeddf 2002 yn gwneud yn gyfartal, yn 60 mlwydd oed, yr oedrannau pryd bydd gan ddynion a menywod yr hawl i gonsesiynau teithio ar wasanaethau bysiau lleol o dan adran 146 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 neu o dan gynlluniau a wnaed o dan adran 93 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985. Mae'r oedrannau hyn eisioes wedi'u gwneud yn gyfartal, mewn perthynas â Chymru, gan Erthyglau 2, 3 a 5 o Orchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/3765 (Cy.313) ("Gorchymyn 2001") a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002. Bydd Erthygl 5 o Orchymyn 2001 yn cael ei disodli gan, ac yn peidio â chael effaith oherwydd, dyfodiad Deddf 2002 i rym, ar 1 Ebrill 2003, fel canlyniad i'r Gorchymyn hwn.

Mae'r darpariaethau y mae'r Gorchymyn hwn yn eu cychwyn mewn perthynas â Chymru hefyd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2003, mewn perthynas â Lloegr, o dan Orchymyn Deddf Consesiynau Teithio (yr Hawl i'w Cael) 2002 (Cychwyn) (Lloegr) 2002 (O.S. 2002/673 (C.17)).